# Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017

**2017 dccc 3**

## RHAN 2

Y DRETH A GWAREDIADAU TRETHADWY

## PENNOD 2

GWAREDIADAU TRETHADWY

### 3 Gwarediadau trethadwy

(1) Gwneir gwarediad trethadwy pan fo'r holl amodau a ganlyn wedi eu bodloni.

(2) Amod 1 yw bod deunydd yn cael ei waredu drwy dirlenwi (gweler adran 4).

(3) Amod 2 yw naill ai—
- (a) bod y tir lle y gwneir y gwarediad yn safle tirlenwi awdurdodedig, neu'n rhan o safle o'r fath (gweler adran 5(1)), neu
- (b) bod trwydded amgylcheddol yn ofynnol ar gyfer y gwarediad (gweler adran 5(2)) ond nad yw'r tir lle y'i gwneir yn safle tirlenwi awdurdodedig, nac yn rhan o safle o'r fath.

(4) Amod 3 yw bod y gwarediad yn warediad o'r deunydd fel gwastraff (gweler adrannau 6 a 7).

(5) Amod 4 yw bod y gwarediad yn cael ei wneud yng Nghymru.

(6) Gweler hefyd adran 8 ar gyfer mathau o weithgarwch safle tirlenwi penodedig sydd i'w trin fel gwarediadau trethadwy (pa un a fodlonir yr amodau uchod ai peidio).

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, Adran 3. (See end of Document for details)*

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 3 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 97(2)**

**I2** A. 3 mewn grym ar 1.4.2018 gan O.S. 2018/35, **ergl. 3**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, Adran 3.